CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU
ARCHIVES & RECORDS COUNCIL WALES

**Adroddiad a Strategaeth Marchnata CAChC (2026): Crynodeb ar gyfer Gwasanaethau'r Aelodau**

---

## 1. Cyd-destun, Pwrpas a Bwriadau

Mae 23 o wasanaethau archifau yng Nghymru. Maent yn gartref i gasgliadau sydd o ddyfnder, ehangder ac arwyddocâd dynol eithriadol, dan ofal arbenigwyr hynod angerddol. Mae bron i bawb sy'n dod ar eu traws yn llwyr ryfeddu. Yr her yw mai ychydig iawn o bobl sy'n gwybod eu bod yn bodoli. **Mae'r rheini sy'n defnyddio'r sector yn ei garu ond mae braidd yn anhysbys i'r rheini nad ydynt yn ei ddefnyddio.**

Aeth Archifau Gwent a CAChC ati i gomisiynu Monument Marketing i ddatblygu **Strategaeth Farchnata Genedlaethol** fel rhan o brosiect *Archives Wales Alive / Archifau Cymru Byw* a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau bod y sector archifau yn fwy amlwg, yn fwy perthnasol a bod mwy yn ymgysylltu ag ef. Mae'r adroddiad a'r strategaeth yn cael eu llywio drwy ymchwil ymhlith y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau archif, defnyddwyr sydd wedi rhoi'r gorau iddi, cynulleidfaoedd ar-lein a'r rhai yng Nghymru a thu hwnt nad ydynt yn ddefnyddwyr.

Pwrpas y strategaeth yn syml, yn hytrach na 'hyrwyddo'r' archifau yn unig, yw:

- **Gostwng y trothwy o ran ymgysylltu**, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n eu defnyddio am y tro cyntaf a defnyddwyr sydd wedi'u tangynrychioli
- **Creu stori genedlaethol a rennir am archifau Cymru**, wrth barchu hunaniaethau lleol
- **Meithrin hyder**, eglurder a llwybrau sy'n denu i wasanaethau archifau
- **Galluogi twf cynaliadwy**, heb lwyr ddibynnu ar staff unigol sy'n 'hyrwyddwyr'
- **Cefnogi gwasanaethau'r aelodau** drwy offer ymarferol, y gellir eu hehangu, ac adnoddau a rennir

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod rhwystrau strwythurol, gan gynnwys daearyddiaeth, trafnidiaeth, oriau agor cyfyngedig, anghydraddoldeb digidol, cyfyngiadau cyllido a chapasiti staff, yn dylanwadu ar bwy all ddefnyddio gwasanaethau archifau. Mae'r strategaeth arfaethedig yn gosod marchnata fel **gweithgaredd hirdymor ar y cyd** sy'n eistedd ochr yn ochr ag eirioli dros gyllid gwell, staffio a seilwaith, nid yn ei le.

## 2. Canfyddiadau Allweddol

1. **Mae’r rheini sy’n defnyddio’r sector yn ei garu ond mae braidd yn anhysbys i’r rheini nad ydyn yn ei ddefnyddio.** Mae cysylltiadau cadarnhaol fel darganfod, hanes a chadwraeth yn gadarn, ond mae ymwybyddiaeth yn gyfyngedig y tu hwnt i gynulleidfaoedd presennol.
2. **Hyder yw'r rhwystr mwyaf i ymgysylltu.** Mae llawer o bobl, gan gynnwys y rheini sydd â phrofiad o ddefnyddio archifau, yn teimlo'n ansicr ynglŷn ag ymweld â gwasanaethau archifau sy’n anghyfarwydd.
3. **Yn aml, nid yw bobl yn gwybod beth i ofyn amdano na ble i ddechrau.** Mae diffyg eglurder ynglŷn â beth sydd yn yr archifau, a sut i ddechrau ymchwilio, yn atal pobl rhag ymgysylltu.
4. **Trafod deunydd gwreiddiol yw cryfder mwyaf y sector.** Mae’r profiad corfforol o gyffwrdd archifau, yn cael ei werthfawrogi'n fawr ond caiff ei dangynrychioli yn y negeseuon cyfredol.
5. **Mae arbenigedd staff yn hanfodol o ran creu profiadau cadarnhaol.** Mae staff medrus, croesawgar yn rhoi sicrwydd ac yn magu hyder ymhlith y defnyddwyr, ond mae'r fath ddibyniaeth yn creu bregusrwydd os yw’r capasiti yn gyfyngedig.
6. **Mae diwydiannau creadigol a sefydliadau cymunedol eisiau mynediad ond maent yn wynebu allgau strwythurol.** Mae awydd a brwdfrydedd cryf i gydweithio, ond yn aml ystyrir bod archifau yn fannau academaidd neu anhygyrch.
7. **Mae ymgysylltu ar-lein yn cynyddu ond gall greu camdybiaethau.** Mae cynnwys ar-lein yn hanfodol, yn enwedig i alltudion a defnyddwyr anabl, ond gall arwain at y rhagdybiaeth bod 'popeth eisoes ar-lein’.
8. **Mae negeseuon effeithiol yn egluro bod yr archifau i bawb.** Y canfyddiad yw bod archifau i 'bobl eraill'. Yr arf yw defnyddio iaith sy'n bersonol, croesawgar, sy’n cael ei harwain gan ddarganfyddiadau ac yn gynhwysol.
9. **Cyfryngau cymdeithasol yw'r brif sianel ddarganfod - ond mae'n cael ei danddefnyddio’n strategol.** Yn aml, mae archifau yn siarad â'i gilydd yn hytrach na siarad â chynulleidfaoedd newydd, a gall y cynnwys fod yn rhy sefydliadol.

10. **Mae anghydraddoldebau strwythurol yn cyfyngu ar yr hyn y gall marchnata yn unig ei gyflawni.** Mae daearyddiaeth, oriau agor, trafnidiaeth, amrywiaeth a chyllid yn dylanwadu ar fynediad, a rhaid eu cydnabod ochr yn ochr â gweithgarwch hyrwyddo.

---

**3. Grwpiau Targed**

Nododd yr adroddiad 5 grŵp allweddol i'w targedu yn rhan o'r strategaeth farchnata:




Defnyddwyr rheolaidd neu'r rhai sydd wedi rhoi'r gorau iddi, y mae darganfod, dyfnder y wybodaeth, cymuned a mynediad at ddogfennau gwreiddiol, yn eu hysgogi. Mae'r rhwystrau yn cynnwys oriau agor cyfyngedig, teithio, problemau iechyd neu symudedd, a phryder os bydd staff neu systemau yn newid. Y ffordd orau i'w cyrraedd yw ar lafar, ar Facebook, sgyrsiau, arddangosfeydd, rhwydweithiau achau a hanes lleol.

Defnyddwyr ar-lein ac alltudion sy'n cael eu hysgogi gan hunaniaeth Gymreig a threftadaeth deuluol, sy'n ymgysylltu'n ddigidol yn bennaf. Mae rhwystrau yn cynnwys pellter, materion yn ymwneud â mynediad digidol, diffyg dealltwriaeth am yr hyn sydd ar gael y tu hwnt i gofnodion ar-lein. Y ffordd orau i'w cyrraedd yw drwy'r cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau e-bost, casgliadau digidol, digwyddiadau rhithwir.







Pobl sydd â diddordebau diwylliannol neu hanesyddol cyffredinol ond heb brofiad o archifau; mae straeon, sgyrsiau ac arddangosfeydd lleol yn eu hysgogi. Mae rhwystrau yn cynnwys braw, ansicrwydd ac ofn 'nad ydynt yn gwybod digon'. Y ffordd orau i'w cyrraedd yw drwy wahoddiadau clir ac iaith groesawgar, drwy gyfryngau cymdeithasol sy'n hygyrch iddynt, ac yn ystod digwyddiadau rhagarweiniol.

CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU
ARCHIVES & RECORDS COUNCIL WALES

Artistiaid, dylunwyr, awduron, gwneuthurwyr ffilmiau, grwpiau cymunedol a busnesau creadigol sy'n chwilio am ysbrydoliaeth o ddeunydd dilys a straeon lleol, unigryw. Mae rhwystrau yn cynnwys diffyg pwyntiau mynediad clir, ansicrwydd o ran sut i ymgysylltu, a mynegiannau academaidd. Y ffordd orau i'w cyrraedd yw drwy rwydweithiau creadigol, partneriaethau, galwadau agored, cyflwyniadau personol a hwyluso mynediad.







Cynulleidfaoedd iau, amrywiol sy'n cael eu denu at brofiadau diwylliannol, cyffyrddadwy, ymarferol, cymdeithasol ac emosiynol y maent yn gallu uniaethu â nhw. Mae'r rhwystrau yn cynnwys ymwybyddiaeth isel, naws sefydliadol a chanfyddiad nad yw archifau 'ar eu cyfer nhw'. Y ffordd gorau i'w cyrraedd yw drwy Instagram, TikTok, rhaglennu profiadol, hysbysebion naid a chydweithio gyda dylanwadwyr a lleoliadau.

---

**4. Argymhellion**

Er mwyn cyrraedd y grwpiau targed uchod ac apelio'n ehangach at bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr, mae'r adroddiad yn argymell 4 piler ar gyfer Strategaeth Farchnata Genedlaethol:

**Piler 1: Gostwng y trothwy o ran ymgysylltu**

- Cynnig **llwybrau mynediad amlwg** ac **iaith gyson** er mwyn ymgyfarwyddo a magu hyder
- CAChC i weithio gyda gwasanaethau'r aelodau i ddatblygu **gwefan safonol** a rennir, canllawiau 1-2-3, 'sut i ddefnyddio archif' hawdd eu defnyddio, a fideos sy'n estyn croeso, i'w defnyddio ar draws y sector
- Datblygu **dulliau ymgysylltu creadigol** yn y tymor hwy, yn cynnwys ap ymchwilio ac ystafelloedd dianc ar gyfer archifau.

**Piler 2: Creu Brand Cenedlaethol Cadarn, a rennir**

- Gall **amlygrwydd cenedlaethol, iaith gyson** a chydlynu **presenoldeb yn y cyfryngau** help i drawsnewid y sector archifau, o drysor cudd i adnodd diwylliannol prif ffrwd.

- CAChC i weithio gyda gwasanaethau'r aelodau i **ddatblygu adnoddau** i hyrwyddo gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol ar draws y sector a'i gydlynu
- Arddangos archifwyr a'r gwaith maen nhw'n ei wneud trwy fentrau fel **'Ceidwaid Storïau'** ffilmiau portread a phartneriaethau cyfryngau tymor hwy.

**Piler 3: Creu Pwyntiau Mynediad Ffurfiol ar gyfer Cynulleidfaoedd Newydd**

- Datblygu **llwybrau strwythuredig, y gellir eu hailadrodd,** i bobl greadigol, sefydliadau cymunedol, cwmnïau sector preifat a grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli, i ymgysylltu ag archifau nad ydynt yn dibynnu ar aelodau unigol o staff
- Treialu mentrau fel **sesiynau pori yn ôl thema**, wedi eu hysbrydoli gan Glwb Lloffa Casgliadau Arbennig ac Archifau Prifysgol Caerdydd
- Tymor hwy: datblygu rhaglen **gymrodoriaeth** neu **bartneriaeth arloesi**.

**Piler 4: Hyrwyddo Cynnyrch a Straeon Seiliedig ar Archifau**

- Sicrhau bod y gwaith ysbrydoledig sy'n mynd rhagddo drwy **ymgysylltu ag archifau, yn fwy amlwg**, a chreu cylch rhinweddol sy'n denu cynulleidfaoedd newydd
- Datblygu **arddangosfeydd teithiol neu arddangosfeydd naid** i fynd ag archifau i gymunedau
- Creu **astudiaeth achos** a **llyfrgell gynnwys a rennir** i ddathlu'r gwaith rhagorol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, a chefnogi gweithgareddau ar draws y sector yn y dyfodol
- Tymor hwy: Cynhyrchu **cylchgrawn CAChC** bob chwarter a/neu **gylchgrawn hanes i blant** i dynnu sylw at weithgarwch y sector.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn yr 17 argymhelliad sydd yn yr adroddiad, yma.

---

**5. Y Camau Nesaf**

Mae'r adroddiad yn cydnabod **na all marchnata'n unig ddatrys heriau strwythurol**, ond mae'n dadlau y gall yr argymhellion helpu i ehangu cyrhaeddiad, ac effaith archifau yng Nghymru. Yr hyn sy'n ganolog i lwyddiant yw **cydweithio**: rhwng gwasanaethau archifau a CAChC, ochr yn ochr â phartneriaid creadigol, cymunedau a defnyddwyr eu hunain.

CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU
ARCHIVES & RECORDS COUNCIL WALES

Mae CAChC wedi cyflogi 2 swyddog prosiect - James Phillips ac Emma West - i ddechrau cyflawni argymhellion y prosiect, a hynny'n rhan o brosiect Archives Wales Alive / Archifau Cymru Byw (Rhagfyr 2025 – 31 Hydref 2026). Eu nod yw:

1. **Ymgynghori â gwasanaethau aelodau CAChC** i weld pa un o argymhellion yr adroddiad fyddai'n eu helpu fwyaf i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd (Mai-Mehefin 2026)
2. **Cyd-ddatblygu a phrofi adnoddau a rennir** gyda gwasanaethau'r aelodau (Mehefin-Medi 2026)
3. **Lansio adnoddau newydd mewn gŵyl archifau genedlaethol**; datblygu cynigion cyllid ar gyfer prosiectau yn y dyfodol (Medi-Hydref 2026).

Ein gweledigaeth yw gweithio gydag aelodau i greu **offer ac adnoddau ymarferol** helpu archifau yng Nghymru i fod yn fwy amlwg, hybu mwy i ymweld â nhw, a bod yn fwy amrywiol o ran eu cynulleidfaoedd, gan roi'r sylw y maen nhw'n ei haeddu i staff a chasgliadau gwych y sector.